# Prif Swyddog Fferyllol
# Chief Pharmaceutical Officer

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

At:

Pob Fferyllydd a Thechnegydd Fferyllol sy'n gweithio mewn practis fferylliaeth gymunedol yng Nghymru

28 Medi 2018

Annwyl Gyfeillion,

**Newidiadau i'r Achrediad Gwasanaeth Ychwanegol Cenedlaethol**

Yn gynharach yn y flwyddyn, cytunwyd ei bod yn ofynnol i bob fferyllydd a thechnegydd fferyllol sy'n darparu gwasanaethau ychwanegol neu sy'n bwriadu darparu gwasanaethau ychwanegol yng Nghymru gwblhau'r broses Achrediad Gwasanaeth Ychwanegol Cenedlaethol (NESA) yn ystod 2018-19.

Rydym yn ymwybodol bod cyflwyno'r broses NESA wedi bod yn heriol, ond mae'r llythyr yn nodi'r sail resymegol dros y newid a'i gyd-destun ac yn ailadrodd pam y mae'n hanfodol i ddatblygiad parhaus fferylliaeth gymunedol yng Nghymru.

Mae gan y sector fferylliaeth gymunedol yng Nghymru hanes hir o ddarparu gwasanaethau fferyllol ychwanegol o ansawdd uchel. Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i gyflwyno gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer brechiadau ffliw yn y GIG; mae gwasanaethau atal cenhedlu brys, rhoi'r gorau i smygu, a chyflenwi meddyginiaeth frys yn cael eu darparu yn unol â safon genedlaethol gyffredinol. Mae'r gwasanaeth mân anhwylderau, sydd eto ar gael drwy ddefnyddio un dull ledled Cymru, hefyd yn caniatáu i fferyllwyr proffesiynol wneud cyfraniad mawr at wella mynediad at ofal a lleihau anghydraddoldeb.

Datblygwyd y broses NESA gan Ganolfan Addysg Fferyllol Cymru i Raddedigion ar gais y Prif Swyddog Fferyllol er mwyn darparu model newydd ar gyfer achredu fferyllwyr proffesiynol sy'n darparu gwasanaethau clinigol. Blaenoriaethau'r gwaith hwnnw oedd:

1. darparu dull newydd, mwy effeithlon, o achredu ac ail-achredu.

2. darparu dull mwy hyblyg sy'n gweithio i bob gwasanaeth ac sy'n llai dibynnol ar hyfforddiant wyneb yn wyneb; a

3. gwella cymhwysedd fferyllwyr clinigol proffesiynol sy'n darparu gwasanaethau ychwanegol ar draws ystod eang o sgiliau generig sy'n hanfodol er mwyn darparu gofal fferyllol o ansawdd uchel.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Andrew.Evans@wales.gsi.gov.uk
Gwefan ● website: www.wales.gov.uk

Y pwynt olaf hwn yw'r pwysicaf.  Nid yw'r newidiadau a wnaed gan NESA yn ymwneud â dulliau newydd o asesu'r gwasanaethau y mae fferyllwyr proffesiynol eisoes yn eu darparu.  Yn hytrach, mae angen defnyddio NESA er mwyn rhoi sicrwydd i gleifion, gweithwyr proffesiynol eraill a'r GIG fod gan fferylliaeth gymunedol y sgiliau angenrheidiol a'r cymhwysedd i ddarparu gwasanaethau sy'n bodloni anghenion dinasyddion a'r GIG yng Nghymru heddiw ac yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei hymrwymiad i'r sector fferylliaeth gymunedol yng Nghymru fel rhan allweddol o wasanaeth gofal sylfaenol cryf.  Mae strategaeth y Llywodraeth, *Symud Cymru Ymlaen*, yn ymrwymo i fuddsoddi mewn fferyllfeydd cymunedol er mwyn darparu ystod fwy o wasanaethau clinigol, rhoi llai o bwysau ar wasanaethau meddyg teulu, lleihau apwyntiadau diangen a sicrhau bod pobl yn gallu gweld y gweithiwr proffesiynol cywir yn y lleoliad cywir ar yr adeg gywir.  Er mwyn gwneud hyn bydd angen newid sylweddol yn ansawdd a chysondeb y ddarpariaeth gwasanaeth fferyllol, drwy sicrhau bod pob fferyllydd proffesiynol yn rhoi gofal o'r ansawdd gorau yng Nghymru.

Er mwyn manteisio i'r eithaf ar y rôl y gall fferylliaeth gymunedol ei chwarae, mae'n bwysig bod y gweithlu cyfan yn dangos sgiliau a chymhwysedd sylfaenol gwych. Gyda sylfaen gref, gall y gweithlu gael y gefnogaeth i ddatblygu arferion uwch drwy ystod gynyddol o wasanaethau sy'n gwireddu potensial fferyllwyr proffesiynol.

Rydym yn ymwybodol iawn na fydd llawer o fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol wedi cael unrhyw addysg neu hyfforddiant ffurfiol ym meysydd NESA. Bydd hyn yn golygu y gall defnyddio fframweithiau strwythuredig er mwyn sicrhau cymhwysedd fod yn heriol i'r unigolion hynny.  Gallaf eich sicrhau ein bod wedi ymrwymo i sicrhau bod Canolfan Addysg Fferyllol Cymru i Raddedigion yn darparu cefnogaeth briodol i bawb gwblhau'r broses achredu yn llwyddiannus drwy adnoddau ar-lein, digwyddiadau wyneb yn wyneb ac adborth ysgrifenedig ac ar lafar.  Rydym yn eich annog i fanteisio ar y gefnogaeth hon.

Buddsoddiad yn y gweithlu fferylliaeth gymunedol yw'r broses cyflwyno NESA, sy'n helpu i wireddu dyheadau Llywodraeth Cymru ar gyfer fferylliaeth gymunedol yng Nghymru ac rydym yn eich annog i fod yn gadarnhaol yn ei gylch.

Mae mwy o wybodaeth am NESA ar gael ar wefan Canolfan Addysg Fferyllol Cymru i Raddedigion.

Yn gywir

**Andrew Evans**
Chief Pharmaceutical Officer/Prif Swyddog Fferyllol
Llywodraeth Cymru/Welsh Government

**Margaret Allan**
Director/Cyfarwyddwr
Wales Centre for Pharmacy Professional Education /Canolfan Addysg Fferylliaeth Broffesiynol Cymru